# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-10-06(p8)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau15 Mehefin 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 3, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Y Mesur Iechyd ac effaith y Comisiwn Penodiadau ar Gymru

## Diben

1. Yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr, gofynnodd y Pwyllgor am restr o gyrff y bydd y Mesur yn effeithio arnynt ac eglurhad ynghylch a fyddai'r Mesur yn rhoi pwerau newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

### Crynodeb / Argymhellion

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur.

### Cefndir

3. Yn ymarferol, ers 2002, bu trefniadau anffurfiol yn eu lle rhwng y Cynulliad a Chomisiwn Penodiadau'r GIG fel y gallai'r Comisiwn gyflawni nifer o swyddogaethau penodi ar ran y Cynulliad. Roedd y rheini'n cwmpasu cyrff lle roedd gan y Cynulliad bwer penodi yn unig a chyrff lle roedd ganddo hefyd bwer i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn.

4. Mae gan y Cynulliad bwer i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn yn achos yr Asiantaeth Diogelu Iechyd neu'r Comisiwn Gofal Iechyd (Y Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd) ond nid yw wedi arfer y pwer hwn. Yn lle hynny, mae'r Cynulliad wedi gwneud trefniadau yn unol ag adran 41 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n galluogi'r Cynulliad i wneud trefniadau fel y gall "awdurdod perthnasol" gyflawni'r swyddogaethau penodi, sef y Comisiwn Penodiadau yn yr achos hwn. Mae'r Cynulliad yn defnyddio adran 41 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn eang ac mae wedi dehongli "awdurdod perthnasol" yn rhydd er mwyn cynnwys Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Lloegr hyd yn oed os nad yw eu swyddogaethau statudol yn darparu'n benodol ar gyfer y cyfryw drefniadau.

5. Yn sgil trafodaethau anffurfiol rhwng y swyddogion polisi cafwyd sicrwydd y gall y Cynulliad barhau i wneud trefniadau newydd o dan adran 41 gyda'r Comisiwn Penodiadau, a fydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd yn y broses benodi na rhoi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn yn unig.

6. Yn Atodiad 1, mae rhestr gynhwysfawr o'r cyrff y mae'r trefniadau hyn yn effeithio arnynt.

## Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol

7. Nid yw'r mesur yn rhoi pwerau newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn hytrach, mae'n gwneud darpariaeth fel y gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r Comisiwn Penodiadau newydd i ymgymryd â'r swyddogaethau penodi. Mae Adran 5 o'r Mesur yn cwmpasu'r darpariaethau i ddisodli Comisiwn Penodiadau'r GIG gyda sefydliad newydd o'r enw'r Comisiwn Penodiadau. Mae hyn yn unol ag ymateb y Llywodraeth i'r Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus (Mehefin 2003) a ddangosai y gallai rhai Adrannau gael budd o ddefnyddio gwasanaethau Comisiwn Penodiadau'r GIG i gefnogi eu timau noddi i wneud penodiadau ond y byddai angen awdurdod statudol i wneud hynny.

8. Bydd y Mesur yn sefydlu'r Comisiwn Penodiadau fel Corff Cyhoeddus Anadrannol a bydd yn cael pwerau i arfer, os caiff ei gyfarwyddo i wneud hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol, swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a'r Cyfrin Gyngor o ran penodi Cadeiryddion ac aelodau anweithredol i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol a chyrff rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd (Atodiad 1). Hefyd, bydd y broses o benodi cynrychiolwyr Cymru ar gyrff rheoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd yn cael ei dirprwyo i'r Comisiwn Penodiadau. Os gofynnir iddo wneud hynny, gall y Comisiwn Penodiadau helpu Byrddau Ymddiriedolaethau Sefydledig y GIG gyda'u pwerau penodi a hefyd, os gofynnir am hynny, gall helpu Gweinidogion Lloegr gyda phwerau penodi i gyrff cyhoeddus eraill.

Dr Brian Gibbons AC
Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddog Cyswllt: Della Martin, Penodiadau Cyhoeddus y GIG, tel 029 2082 3541

## Atodiad 1

Rhestr o gyrff yr effeithir arnynt gan y Mesur Iechyd

Awdurdodau Iechyd Arbennig

Shared Services Agency

Dental Vocational Training Authority

Mental Health Act Commission

National Blood Authority

National Patient Safety Agency

National Clinical Assessment Authority

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

UK Transplant

Cyrff Eraill y GIG

Appeal Body (DVTA)

Dental Practice Board

Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol

Y Comisiwn Gofal Iechyd (Y Comisiwn Archwilio ac Arolygu Gofal Iechyd)

Council for the Regulation of Healthcare Professionals

Human Fertilisation & Embryology Authority

Health Protection Agency

National Biological Standards Board

Bwrdd Addysg a Hyfforddiant Meddygol i Raddedigion

Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Cynghorol

Advisory Board on the Registration of Homeopathic Products

Advisory Committee on Borderline Substances

Advisory Committee on NHS Drugs

Advisory Committee on Distinction Awards

Advisory Committee on Dangerous Pathogens

Advisory Group on Hepatitis

Administration of Radioactive Substances Advisory Committee

British Pharmacopoeia Commission

Committee on Carcinogenicity in Food, Consumer Products and the Environment

Committee on Mutagenicity of Chemicals in Food, Consumer Products and the Environment

Committee on the Medical Aspects of radiation in the Environment

Committee on the Safety of Medicines

Doctors & Dentists Pay Review Body

Expert Advice Group on Aids

Genetics and Insurance Committee

Gene Therapy Advisory Committee

Human Genetics Commission

Independent Review Panel on the Classification of Borderline Substances

Joint Committee on Vaccination and Immunisation

Medicines Commission

Medical Workforce Standing Advisory Committee

Nurses & Midwifes Pay Review Body

Patient Information Advisory Group

Specialist Advisory Committee on Antimicrobial Resistance

Scientific Advisory Committee on Nutrition

Scientific Committee on Tobacco and Health

Spongiform Encephalopothy Advisory Committee

Standing Medical Advisory Committee

Standing Nursing and Midwifery Advisory Committee

Standing Pharmaceutical Advisory Committee

United Kingdom Advisory Panel for Healthcare Workers infected with Bloodborne Viruses

Unrelated Live Transplant Regulatory Authority

UK Xenotransplantation Interim Regulatory Authority

Tribiwnlysoedd

Safonau Gofal

Family Health Services Appeal Authority (Tribunal)

Adolygu Iechyd Meddwl